PRESS RELEASE
DATGANIAD I'R WASG

19 January 2012

PR 5898
For Immediate Release

HMO LICENSING SCHEME IN PLASNEWYDD AND GABALFA

People living in Plasnewydd and Gabalfa wards are to be asked their opinion on whether all or part of those areas should be designated as part of the HMO (Houses in Multiple Occupation) Licensing scheme.

The Executive has agreed to go out to consultation on the extension to the scheme which would apply to all Houses in Multiple Occupation (HMOs) within the areas except those exempted by the relevant sections of the Housing Act 2004. A scheme has successfully covered the Cathays ward since July 2010.

The scheme gives the Council additional licensing powers to extend the scope of its HMO licensing to other descriptions of HMO in the area covered which means the standard of housing in the area will be improved as all properties have to be identified, inspected and have consistent standards.

Additional licensing would bring significant benefits in the Plasnewydd and Gabalfa Wards by securing improved housing accommodation and better management of properties. The scheme would also improve safety for the occupiers and bring improvements to the wider community.

Deputy Leader of Cardiff Council, Cllr Judith Woodman, said: "The Council had been concerned about the impact of HMOs and student housing in Cathays and introduced a licensing scheme which along with other initiatives has had a significant and positive impact in the area. Due to this success, we are now looking at the possibility of extending the scheme to the Plasnewydd and Gabalfa wards."

"The Council is determined that all residents in the capital, particularly students coming to study in Cardiff, are safe and live in high quality accommodation providing value for money. Should the scheme go ahead, I would encourage all landlords, tenants and residents to help the Council make it as much a success in the Plasnewydd and Gabalfa Wards as it has been in Cathays."

Any landlord, person managing or tenant within the city should seek advice from Cardiff Council's Regulatory Service, Private Sector Housing Team regarding whether a property would be affected by an Additional Licensing Scheme in the Plasnewydd and Gabalfa Wards.

A person having control or managing an HMO in the designated areas would need to apply to Cardiff Council for a licence.

For further information contact the Private Sector Housing team on 029 2087 1762 or PrivateSectorHousing@cardiff.gov.uk

CYMRAEG

CYNLLUN TRWYDDEDU TAI AMLFEDDIANNAETH YM MHLASNEWYDD A GABALFA

Bydd trigolion wardiau Plasnewydd a Gabalfa yn cael cyfle i leisio barn ar a ddylai'r ardal neu ran ohoni gael ei dynodi'n rhan o gynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (HMO).

Mae'r Weithrediaeth wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad ar ymestyn y cynllun i gynnwys pob HMO o fewn yr ardaloedd hyn, heblaw am y rheiny sydd wedi eu heithrio dan adrannau perthnasol Deddf Tai 2004. Mae cynllun tebyg wedi bod ar waith yn llwyddiannus yn ward Cathays ers mis Gorffennaf 2010.

O dan y cynllun hwn, mae gan y Cyngor bwerau trwyddedu ychwanegol sy'n ymestyn ei bwerau i ddisgrifiadau eraill o HMO yn yr ardal. Mae hyn yn golygu bod safonau'r tai yn gwella gan fod rhaid archwilio tai o'r fath yn gyson a sicrhau bod y safonau yn cael eu cynnal.

Byddai pwerau trwyddedu ychwanegol o fudd mawr i Wardiau Plasnewydd a Gabalfa, wrth wella tai a'r rheolaeth drostyn nhw. Byddai'r cynllun hefyd yn golygu bod y tai yn fwy diogel i'r rheiny sy'n byw ynddynt ac o fudd i'r gymuned ehangach.

Dywedodd Dirprwy Arweinydd Cyngor Caerdydd, y Cynghorydd Judith Woodman: "Mae'r Cyngor wedi bod yn poeni am effaith Tai Amlfeddiannaeth a thai myfyrwyr yn Cathays. Dyna oedd y rheswm dros gyflwyno cynllun trwyddedu. Mae hyn, ynghyd a mesurau eraill, wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar yr ardal. Yn sgil y llwyddiant hwn, rydyn ni'n ystyried ymestyn y cynllun i wardiau Plasnewydd a Gabalfa."

"Mae'r Cyngor yn benderfynol bod yr holl drigolion yn y brifddinas, yn enwedig myfyrwyr sy'n dod i astudio yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn byw mewn llety o safon sy'n darparu gwerth am arian." Os â'r cynllun yn ei flaen, byddwn i'n annog pob landlord, tenant a phreswylydd i weithio tuag at ei lwyddiant ym Mhlasnewydd a Gabalfa, fel sydd wedi digwydd yn Cathays.

Dylai unrhyw landlord, person sy'n rheoli neu denant o fewn y ddinas ofyn am gyngor gan Wasanaeth Rheoleiddio Cyngor Caerdydd, Tîm Tai'r Sector Preifat ynglyn â pha eiddo yr effeithir arnynt gan Gynllun Trwyddedu Ychwanegol Wardiau Plasnewydd a Gabalfa.

Bydd rhaid i berson sydd â rheolaeth dros, neu sy'n rheoli, Ty neu Dai Amlfeddiannaeth yn yr ardaloedd penodol hyn ymgeisio am drwydded gan Gyngor Caerdydd.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â thîm Tai'r Sector Preifat ar 029 2087 1762 neu PrivateSectorHousing@caerdydd.gov.uk